Ask for/*Gofynnwch am*
Our Ref/*Ein Cyf*
Your Ref/*Eich Cyf*
Tel/*Ffôn* **+441633 656656**
Direct Dial/*Rhif Union*
DX

E-Mail/*E-Bost* Jane.Mudd@newport.gov.uk

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

Newport
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
Casnewydd

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

**Parthed: Cystadleuaeth Dinas Diwylliant y DU 2025**

Fel arweinwyr y pum awdurdod lleol sy'n cynnwys yr hen "Gwent" credwn fod apêl gref ac unigryw mewn cynnig rhanbarthol dan arweiniad Dinas Casnewydd ac y byddem yn croesawu eich cefnogaeth i'n cais.

Fel rhanbarth, mae cysylltiad anorfod rhwng ein gorffennol, y presennol a'n dyfodol. Rydym yn rhannu hanes cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n seiliedig ar ein treftadaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol. O aneddiadau Rhufeinig yng Nghaerllion a Chas-gwent i aneddiadau Normanaidd ledled y rhanbarth, treftadaeth ddiwydiannol a adeiladwyd ar lo, haearn a dur, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ym Mlaenafon, cynnydd democratiaeth drwy fudiadau'r siartwyr a'r swffragetiaid a man geni'r GIG. Mae ein daearyddiaeth a'n tirwedd unigryw, a fframiwyd gan ein treftadaeth ddiwydiannol a morol, wedi llunio'r hanes a'r diwylliant hwn a rannwn.

Mae ein hasedau treftadaeth yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol; cydnabyddir hyn gan y buddsoddiad y mae ein sefydliadau treftadaeth wedi'i wneud wrth adfer ein hasedau gan gynnwys y buddsoddiad o £8.75m yn y Bont Gludo gan CDL a'r cyhoeddiad diweddar am fuddsoddiad o £5m gan Cadw yng Nghastell Caerffili. Mae'r dirwedd unigryw yn ategu ac yn rhan o'r dreftadaeth ddiwylliannol hon; mae Gwastadeddau Gwent, Parc Rhanbarthol y Cymoedd, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Rhodfa Dwristaidd Cwm-carn, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, i gyd yn gwella'r cynnig i ymwelwyr ac yn cyfrannu at lesiant ein cymunedau.

Mae gennym achos cryf i'w gyflwyno o ran ein hunaniaeth ddiwylliannol ar draws ystod o themâu gan gynnwys treftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon a cherddoriaeth. Gallwn hefyd ddangos bod manteision mesuradwy i'r rhanbarth sy'n gysylltiedig â bod yn Ddinas Diwylliant yn 2025. Law yn llaw â chynnydd economaidd yn deillio o dwristiaeth, gallwn adeiladu a dathlu cymunedau mwy cydlynus a dangos y cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar ddigidol a data sydd ar gael i fuddsoddwyr.

Mae Casnewydd hefyd yn Ddinas Borth; yn borth i Gymru, yn borth i Loegr ac yn borth i'r byd cyfan trwy ein porthladd rhyngwladol. Rydym hefyd yn Ddinas Noddfa. Mae Casnewydd hefyd yn datblygu'n gyflym fel 'Dinas Ddata' o fewn rhanbarth sydd wedi'i rymuso'n ddigidol ac mae angen i ni feithrin a datblygu'r cyfle hwnnw. Rhaid i ni ei ymgorffori ym mhopeth a wnawn i sicrhau bod y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd wydn a chynaliadwy, er budd cenedlaethau'r dyfodol.
Bydd y gallu i gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn yn allweddol i unrhyw gais llwyddiannus. Mae Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru wedi'i lleoli yng Nghasnewydd. Mae cyfleusterau yng Nghasnewydd a'r ardal gyfagos yn rhagorol ac mewn rhai achosion yn unigryw. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau proffil uchel gan gynnwys Cwpan Ryder, Uwchgynhadledd G8, uwchgynhadledd NATO, Tour of Britain, Gemau Trawsblannu Prydain, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd yn y rhanbarth.

Mae gan ardal leol "Gwent" dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a phresenoldeb ac arbenigedd cynyddol mewn digidol ac mewn data. Mae potensial cryf i ddatblygu cais sy'n cwmpasu ein

gorffennol a'n prosiectau ymlaen i'r dyfodol, gan ymgorffori technoleg ddigidol ddatblygedig i ddatblygu mynediad i ddigwyddiadau a phrofiadau diwylliannol ar draws rhanbarth cyfan "Gwent". Fodd bynnag, ein cryfder ni yw ein pobl a'n cymunedau; ein cymdogaethau a'n cymunedau sydd wedi'u diffinio'n ofodol a'n cymunedau o ran diddordebau. Mae ein rhanbarth ni'n rhanbarth sy'n gyfoethog o ran cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol a byddai cais llwyddiannus yn darparu'r llwyfan byd-eang i arddangos hyn.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i gais a arweinir gan Gasnewydd ar gyfer Dinas Diwylliant y DU 2025. Wrth i ni gydweithio i adeiladu'n ôl yn well mae cyfle sylweddol i ddatblygu glasbrint ar gyfer dinas gysylltiedig fodern sydd wedi'i gwreiddio mewn rhanbarth sy'n llawn hanes a diwylliant. Bydd hyn yn arddangos cynnig rhanbarthol "Gwent" ar ei orau ac yn sicrhau etifeddiaeth barhaol o gyfoethogi diwylliannol a ffyniant economaidd.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch anogaeth ar y pwnc hwn.

Yn gywir

Cllr Jane Mudd Arweinydd
Cyngor Dinas Casnewydd

Cllr Nigel Daniels Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol

Cllr Richard John
Cyngor Sir Fynwy

Cllr Phillipa Marsden Arweinydd
Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cllr Anthony Hunt Arweinydd
Bwrdeistref Sirol Torfaen